## Emyr Evans (y Parch) Cheltenham, yn bwrw golwg ar hanes

# Thomas Peter Ellis – Barnwr, Hanesydd a Gwladgarwr

Mewn cornel fach ym mynwent y Cyngor yn Nolgellau, gwelir rhes o groesau plaen sy'n dynodi beddau lleianod y cwfaint Carmelaidd. Yng ngwaelod y llecyn cysegredig hwn mae beddfaen syml ar ffurf croes Geltaidd sy'n goffad i un o wladgarwyr mwyaf Cymru, yr hwn sydd eto i'w werthfawrogi'n llawn am ei gyfraniad a'i ymroddiad i hanes a diwylliant ein cenedl, sef Thomas Peter Ellis.

Cof plentyn sydd gennyf ohono, ag yntau yn byw yn Llys Mynach, Dolgellau, ar ôl ymddeol o'r Gwasanaeth Gwladol yn yr India yn 1923.

Dyn tal a thrwm ydoedd, yn tueddu i fod yn fân ac yn fuan ei gamau wrth gerdded. Ni sylwais yr un tro ar lewyrch yn ei wynepryd ac yr oedd yna gwmwl a rhyw olwg pell yn wastad yn ei lygaid. Tra'n cerdded i lawr y bont i'r dref ac anelu at yr Eglwys Gatholig, yr oedd ei feddwl yn brysur wrthi mewn byd arall, yn llawn o syniadau ac atgofion.

Yn aml, ar adegau eraill yr oedd ei wraig (a hefyd y ci) o dras Gymreig, yn cydymdeithio ag ef. Yr oedd yna dawelwch rhyngddynt yn ystod eu hymddangosiad cyhoeddus, ond hefyd rhyw glosni cynnes.

Gwreiddiwyd fy annwyl rieni yng Ngair a Mawl Duw yng Nghrist yn ôl y traddodiad Anghydffurfiol. Dyna draddodiad arbennig o gyfoethog ar ei uchelfannau. Yn eu byd hwy, yr oedd yr Eglwys Gatholig leol bron yn wrthodedig, ac fel petai heb le sicr yn Nheyrnas Crist.

Serch hynny, magwyd fi ganddynt i godi fy nghap wrth gyfarfod y Pabydd, y Barnwr Ellis, fel yn yr un modd i'm gweinidog a'm hathrawon. Nid hawdd o beth oedd i blentyn ddeall sut yr oedd y Barnwr yn barchus ar un llaw, ac ar y llaw arall yn wrthodedig. Dwysaodd y dirgelwch yma ar ôl i mi sylwi bod dwy gyfrol wedi eu cyhoeddi yn Saesneg yn 1929 gan Wasg Prifysgol Rhydychen, dan yr enw *The Mabinogion – A New Translation by T .P Ellis and John Lloyd*. Sut ar y ddaear y llwyddasant i gydweithio, ag un yn Babydd a'r llall yn flaenor hefo'r Methodistiaid Calfinaidd? Yr oedd 'Y Mabinogion' yn glasur arbennig iawn yn hanes fy nghenedl.


Saesneg oedd iaith swyddogol yr Ysgol Ramadeg yn Nolgellau y pryd hynny. Dim ond rhwng naw y bore a hanner dydd ar Ŵyl Dewi Sant y gofynnwyd i bawb, os yn bosibl, i siarad Cymraeg. Dyna'r iaith y cyfeiriwyd ati yn llawlyfr yr Awdurdod Arholiadol, fel petai yn iaith dramor, megis Ffrangeg.

Hi oedd yr iaith a ddefnyddiwyd un bore allan o bump yn ystod addoliad agoriadol yr ysgol.

Ond y Gymraeg oedd prif bwnc yr uchel-ddisgyblwr cadarn o Brifathro, sef John Lloyd, M.A. Pa bryd bynnag y deuai y newydd bod 'Johnni Mewn Swet', dofwyd, dros dro, y mwyaf gwyllt a herfeiddiol o'i ddisgyblion. Enciliai ef hyd nes i'r storm ostegu.

Sylwais, hefyd, fel y gweddnewidiwyd fy Mhrifathro gan dân ei ddiddordeb cynhenid yn nhrysorau barddonol a llenyddol fy iaith enedigol.

Ymhellach ymlaen, wrth ddangos i mi y gyfrol ddiweddaraf o'i eiddo, a hithau wedi ei chyhoeddi gyda'r fath geinder gan Wasg Gregynog, daeth yn llawer agosach ataf. Mwynhad pur iddo oedd cael cyfle i siarad amdani. Yn ddiarwybod, agorodd fy llygaid




*Plac tu mewn i Eglwys Gadeiriol Dolgellau.*

ac enynnodd ynof gariad arbennig tuag at lyfrau cain, sydd yn llewyrchu ynof hyd heddiw.

Rhaid, felly, mai dau Gymro diwylliedig iawn eu meddwl mewn cymdeithas â'i gilydd a esgorodd ar gyfieithiad newydd o'r Mabinogion.

Y mae cyfraniad Thomas Peter Ellis i hanes Deddfau Cymru ac i hanes Merthyron yr Eglwys Gatholig yn gyfraniad ysgolheigaidd aruchel. Cyn belled ag y mae natur hanesyddol Deddfau Cymru yn y cwestiwn, anelu at agor y pwnc a wnaeth, ac aros wrth eraill i gyfrannu i'r dehongliad. Y mae ei wyleidddra fel ysgolhaig yn amlwg yn ei ragarweiniad i'r ddwy gyfrol. Rhaid bod yr un agwedd feddyliol wylaidd tu cefn i'w wybodaeth arbennig a'i ddehongliad o Ddeddfau'r Punjab.

Ond nid yn unig fel Barnwr wedi ei drwytho yn y Gyfraith y cofir amdano. Cofir amdano, hefyd, fel Cristion, yr un mor wylaidd yn ei ymatebiad i ddirgelwch di-ben-draw Ymgnawdoliad Duw yng Nghrist.

Yr oedd yna agwedd arall i'w feddwl tra arbennig, sef agwedd gyfriniol. Tynnodd faeth ac ysbrydiaeth o fywyd mawrion ei genedl ar draws y cenedlaethau. Perthynai iddo ddyfnder dealltwriaeth, nid yn unig o fywyd hunan-arberthol noddwyr Cymru wedi cyflafan concwest Edward I ac ymlaen at yr uno gorthrymedig â theyrnas Lloegr, ond yr oedd ganddo hefyd ddealltwriaeth byw o ddoethineb gras ym mywyd Saint Cymru.

Wrth y tân gwrandawodd ar eu lleisiau yn ei gyfarch ar draws y cenedlaethau, gyda sicrwydd a chadernid un oedd yn derbyn y dirgelwch mawr o anwahanrwydd bywyd y corff a bywyd yr enaid. Yr oedd yn derbyn y ddwy ffydd a thrwy ymarferiad ffydd, bod perthynas barhaus rhwng y byw a'r meirw. Ei ddealltwriaeth fyw o oblygiadau Atgyfodiad Crist oedd wrth wraidd ei dderbyniad gwybodus o'r Dirgelwch Mawr.

Ni ddymunai gael ei dderbyn fel ysbrydolegydd. I'r gwrthwyneb, collfarnodd hwynt fel cymdeithas yn annheg. Y mae agwedd dywyllodrus i ysbrydegaeth ond y mae hefyd gadernid gorchfygol sydd yn eilio gwybodaeth drwy ffydd. Yn ei ysgrifau, a gyhoeddwyd ar ôl ei farwolaeth yn 1936, y gwelir ei agwedd elyniaethus yn y cyfeiriad yma. Ond yn yr un ysgrifau gwelir cryfder a thrylwyredd y dylanwad arno o gyfeiriad buchedd a marwolaeth y Sant a'r Merthyr, John Roberts o Drawsfynydd. Y mae yna gyfathrach eneidiol amlwg rhwng y ddau, sydd yn lliwio personoliaeth Thomas Peter Ellis drwyddo a thraw ac yn ei wneud yn ei dro yn un arbennig iawn yn hanes ei genedl orthrymedig a gwantan ei hunan-barch ers canrifoedd.

Yn ystod y flwyddyn hon gosodwyd plac ar ffurf llechen ar wal faen lliwgar tu mewn i Eglwys Gatholig Dolgellau. Arni saif y geiriad:

> Gweddïwn dros Enaid THOMAS PETER ELLIS, (1873-1936) Barnwr a Hanesydd, un o aelodau cyntaf y plwyf hwn

Dyna gyfle dro ar ôl tro i ddymuno'n dda iddo yn llawnder ei fywyd newydd yn yr Ysbryd.

Wrth orffen y tipyn yma o lith, synnaf drachefn at ei ymroddiad cynnar diamodol, yn ceisio trefnu rhyw fath o adeilad eglwysig ar gyfer addoliad cyhoeddus. Labrwr oedd ef pryd hynny. Symudodd gerrig ac ymlwybrodd i osod llechi ar do. Ymatebodd i arfaeth holl gynhaliol Duw yng Nghrist, nid yn unig â'i feddwl a'i galon, ond hefyd â'i ddwylaw.




*Carreg fedd T. P. Ellis ym mynwent y Cyngor yn Nolgellau.*